# Y Cyfarfod Llawn

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 20 Tachwedd 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

## Agenda
(164)v4

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (5 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)

Gweld y Cwestiynau

### 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 10.5 i benodi Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros dro (5 munud)

**NDM5368**

**Christine Chapman (Cwm Cynon)**

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Atodlen 1, paragraff 4, i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 a Rheol Sefydlog 10.5:

Yn cytuno i enwebu'r Athro Sylvia Margaret Griffiths i'w Mawrhydi er mwyn ei phenodi yn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Dros Dro.

**Dogfennau ategol:**

Nodyn Cefndirol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

**5 Cynnig i gymeradwyo Cyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014/15 (30 munud)**
**NDM5361 Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.16:

Yn cytuno ar gyllideb Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15, fel y pennir yn Nhabl 1 "Cyllideb Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014-15", a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 13 Tachwedd 2013 a'i bod yn cael ei hymgorffori yn y Cynnig Cyllidebol Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii).

**Dogfennau Ategol:**
Dogfen Cyllideb Comisiwn y Cynulliad
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

**6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5363 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi polisi Ceidwadwyr Cymreig 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru';

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r farchnad gyfan i sicrhau y ceir ateb i'r argyfwng cyflenwad tai.

Mae 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' ar gael yma:

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu wrth y degawdau o fethiannau gan lywodraethau Llafur a Cheidwadol sydd wedi arwain at ein hargyfwng tai ac mae hynny wedi gwthio rhenti yn uwch ac yn uwch, wedi gadael miloedd o bobl heb obaith o gael eu troed ar yr ysgol eiddo, ac wedi golygu bod 1.5 miliwn yn llai o gartrefi cymdeithasol ar gael i'w rhentu.

**Gwelliant 2 - Elin Jones (Ceredigion)**

Dileu pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn nodi nad yw polisi'r Ceidwadwyr Cymreig 'Gweledigaeth ar gyfer Tai Cymru' yn cydnabod mai'r broblem tai mwyaf brys yw'r effaith enbyd y mae'r Dreth Ystafell Wely yn ei chael ar nifer o denantiaid tai cymdeithasol, gan effeithio ar allu landlordiaid cymdeithasol i gynyddu'r cyflenwad tai, ac felly'n annog Llywodraeth y DU i ddiddymu'r Dreth Ystafell Wely.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu bod oddeutu 21,551 o gartrefi gwag hirdymor yng Nghymru a bod Llywodraeth Cymru wedi methu â chreu strategaeth cartrefi gwag ar gyfer Cymru gyfan.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod pryder adeiladwyr tai bod biwrocratiaeth yn y system gynllunio yn un o'r prif rwystrau i ddatblygu cartrefi newydd ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddefnyddio'r Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig i gael gwared ar y prif rwystrau rhag darparu trefn gynllunio effeithiol.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu'r camau a gymerir gan Lywodraeth y DU i ysgogi'r gwaith o adeiladu tai newydd drwy fenthyciadau ecwiti a chynllun gwarant morgais, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i bennu dyddiad ar gyfer cyflwyno'r cynllun hirddisgwyliedig Cymorth i Brynu Cymru.

**Gwelliant 6 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 2 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn nodi mai dim ond un ar ddeg o gynghorau lleol yng Nghymru sy’n dal i fod â stoc tai cyngor yn eu meddiant ac mae hynny’n llesteirio gweledigaeth Ceidwadwyr Cymreig i adfer cynllun ‘Hawl i Brynu’ yng Nghymru, a bod y pwer i atal yr Hawl i Brynu tai cyngor mewn ardaloedd lle mae llawer o alw yn arf pwysig i helpu i leihau lefelau digartrefedd a phrinder tai cymdeithasol.

**7 Dadl Plaid Cymru (60 munud)**
**NDM5362 Elin Jones (Ceredigion)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn Nodi:

a) canfyddiadau adroddiad ar newid yn yr hinsawdd gan y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd ei bod 95% yn sicr mai dylanwad dynol ar yr hinsawdd a achosodd dros hanner o'r cynnydd a nodwyd mewn tymereddau arwyneb cyfartalog o 1951-2010;

b) dibyniaeth barhaus Cymru ar danwyddau ffosil ar gyfer ynni, sy'n darparu tua 80% o'r anghenion ynni;

c) mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y defnydd o  adnoddau nwy siâl Cymru, ynghyd â rheoli unrhyw fudd sy'n deillio ohono;

d) methiant Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei tharged o gynhyrchu 4TWh o drydan o ynni adnewyddadwy erbyn 2010;

e) er gwaethaf y ffaith bod Cymru yn allforiwr net trydan, mae biliau'n uwch yng Nghymru nag yn Lloegr neu'r Alban;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datblygu ‘Map Llwybr’ manwl a Chynllun Gweithredu a fydd yn arwain at dargedau ynni adnewyddadwy 2020, gan ddangos targedau ar gyfer pob math unigol o ynni a'r camau a gymerir i gyrraedd y targedau hynny;

b) rhoi pwysau ar Lywodraeth y DU i ddatganoli yn llawn y portffolio ynni a rheoli adnoddau naturiol Cymru i'r Cynulliad Cenedlaethol;

c) cadarnhau gydag Ofgem a'r Grid Cenedlaethol a oes unrhyw ymchwil wedi'i gwneud i gost a hyfywedd cebl tanfor sy'n cysylltu'r Grid Cenedlaethol rhwng gogledd a de Cymru, ac os felly darparu copi o'r ymchwil honno;

d) ymchwilio i'r potensial i sefydlu cwmni ynni cyhoeddus, di-ddifidend i fuddsoddi mewn ynni er budd pobl Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt 1c a rhoi yn ei le:

er mai Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am y drefn drwyddedu ar gyfer chwilota am nwy anghonfensiynol a’i echdynnu, mae angen mathau eraill o ganiatâd (megis caniatâd cynllunio lleol) cyn y caniateir i waith ddechrau gyda nwy anghonfensiynol.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 1d newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

bod Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar drefn ariannol ar gyfer echdynnu nwy siâl ac wedi addo darparu fframwaith cydlynol er mwyn galluogi cymunedau lleol i elwa’n uniongyrchol o unrhyw adnoddau a ddatblygir yn eu hardal.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Banc Buddsoddi Gwyrdd gwerth £3 biliwn, y cyntaf o’i fath yn y byd, a fydd yn sianelu £15 biliwn o fuddsoddiad y sector preifat i brosiectau gwyrdd.

**Gwelliant 4 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

pwysigrwydd cynlluniau ynni cymunedol i gynaliadwyedd ardaloedd lleol, gan feithrin ysbryd cymunedol a chodi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud ag ynni a newid yn yr hinsawdd.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 1:

bod prosiectau seilwaith cenedlaethol eu harwyddocâd (NSIP) ar ynni, gan gynnwys ynni niwclear, yn cael effaith y tu hwnt i ffin Cymru/Lloegr.

**Gwelliant 6 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu cynnig cynhwysfawr i ddatganoli rhagor o bwerau i Gymru ar gyfer cydsyniadau ynni ac ymrwymo i ynni adnewyddadwy.

*[Os derbynnir gwelliant 6, bydd gwelliant 7 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 7 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Dileu is-bwynt 2b a rhoi yn ei le:

ailddatgan y gefnogaeth gan bob plaid i ddatganoli cydsyniadau ynni ar gyfer prosiectau ar y tir sy'n fwy na 50MW ac i weithio gyda Llywodraeth y DU i gysoni pwerau cydsynio ar y môr yn nyfroedd Cymru.

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2c newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ystyried a yw'r drwydded bresennol ar gyfer Datblygu a Chwilota am Betrolewm yn y DU yn drefn effeithiol i ddatblygu nwy anghonfensiynol yn y dyfodol.

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys is-bwynt 2c newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Datblygu canllawiau cynllunio technegol ar chwilota am nwy anghonfensiynol er mwyn helpu awdurdodau cynllunio lleol i gyflawni eu swyddogaethau yn briodol.

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cadarnhau a yw'n cefnogi Prosiect Cysylltu Canolbarth Cymru, a fyddai'n arwain at lawer iawn o dyrbinau gwynt ar y tir ledled Canolbarth Cymru.

**Gwelliant 11 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cyflwyno'r gwerthusiad gwerth am arian o brosiect Ynni'r Fro, a oedd i fod yn barod erbyn diwedd mis Medi 2013.

**Gwelliant 12 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cyflwyno datganiad manwl yn amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cymaint o gyfleoedd ag y bo modd i Gymru drwy'r Banc Buddsoddi Gwyrdd.

## 8 Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (60 munud)

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae'r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

**Mae'r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl a byddant yn cael eu trafod fel a ganlyn:**

**1. Atebolrwydd**

11, 13

**2. Gofal Lliniarol**
4

**3. Gwasanaethau a eithrir**
5, 6, 10

**4. Y cyfnod amser ar gyfer adennill costau**
7

**5. Apelau a hawlildiadau**
1, 2, 3

**6. Defnyddio Gwybodaeth**
12

**7. Defnyddio symiau a ad-delir**
14, 15

**8. Pŵer i atal y Ddeddf dros dro**
8, 9

**Dogfennau Ategol:**
Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Rhestr o Welliannau wedi'u Didoli
Grwpio gwelliannau

**9 Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) (5 munud)**
Ar ddiwedd Cyfnod 3 caiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Bil yn cael ei basio yn unol â Rheol Sefydlog 26.47.

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)

**Cyfnod Pleidleisio**

**10 Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5360 Keith Davies (Llanelli):** Rheoleiddio gorfodol gan y wladwriaeth ar gyfer y diwydiant trin gwallt yng Nghymru: pryder iechyd cyhoeddus ehangach.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 26 Tachwedd 2013